



Polisi Disgresiynau Pensiwn Cyflogwr 2021

Cynnwys

1.0	Datganiad Polisi.....	2
2.0	Rheoliadau Pensiwn.....	2
3.0	Disgresiynau - gorfodol a nad ydynt yn orfodol.....	3
4.0	Disgresiynau Gorfodol Perthnasol	4
5.0	Disgresiynau (ar 31 Gorffennaf 2021).....	6

1.0 Datganiad Polisi

1.1 DISGRESIYNAU PENSIWN CYFLOGWR CYNGOR ABERTAWE: 2020 DIWEDDARIAD

O dan reoliad 60 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGS) 2013, mae'n ofynnol i gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun pensiwn lunio, cyhoeddi a pharhau i adolygu datganiad polisi ar bob disgresiwn gorfodol ac argymhellir hefyd eu bod yn cael parhau i adolygu yr holl ddisgresiynau nad ydynt yn orfodol y gallant eu harfer mewn perthynas ag aelodau'r cynllun.

- 1.2 Rhaid i gyflogwyr y cynllun hefyd lunio, cyhoeddi a pharhau i adolygu yr holl ddisgresiynau gorfodol yn unol â:
Rheoliad 7 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (lawndal Disgresiynol) (Cymru a Lloegr) 2006 [OS 2006/2914]
Rheoliad 26 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (lawndal Disgresiynol) (Cymru a Lloegr) 2000 [OS 2000/1410]
- 1.3 A'r holl ddisgresiynau gorfodol yn ymwneud â lwfansau anafiadau yn unol â:
Rheoliad 14 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiynol) (Lwfansau Anafiadau) 2011 [OS 2011/2954]
- 1.4 Hefyd, mae yna argymhelliad y dylai'r cyflogwr (y Cyngor) lunio, cyhoeddi a pharhau i adolygu datganiad polisi sy'n ymwneud â lwfansau anafiadau mewn perthynas ag ymadawyr, marwolaethau, a gostyngiad mewn cyflog a ddigwyddodd cyn 16 Ionawr 2021; ac sy'n ymwneud â rhoddion mewn perthynas ag ymadawyr a marwolaethau a ddigwyddodd cyn 16 Ionawr 2021, Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiynol) 1996 [OS 1996/1680].

2.0 Rheoliadau Pensiwn

2.1 Mae Rheoliadau LGPS yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun i lunio a chyhoeddi polisi disgresiynau a pharhau i'w adolygu. Mae disgresiynau yn bwerau sy'n galluogi cyflogwyr i ddewis sut i gymhwyso'r cynllun mewn perthynas â darpariaethau penodol. Dim ond ar adeg y cais y mae disgresiynau'n berthnasol ac maent yn amodol ar newid. Pan fydd y Cyngor yn gosod ac yn adolygu'r disgresiynau cyflogwr hyn, rhoddir ystyriaeth i:

- Cost - daw pwerau disgresiynol â chost ynghlwm iddynt - rhaid i bolisiâu beidio ag arwain at golli hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus, felly mae'n rhaid iddynt fod yn fforddiadwy
- Sail gwneud penderfyniadau - ni ddylai polisiâu fod mor anhyblyg na chyfyngol fel eu bod yn atal hyblygrwydd lle mae sefyllfa annisgwyl o bosibl yn gofyn am hynny
- Cydraddoldeb - meini prawf nad ydynt yn gwahaniaethu a lle mae modd cyfiawnhau penderfyniadau yn wrthrychol

- 2.2 Mae gan y Cyngor adnoddau cyfyngedig ac mae angen iddo gynnal cyllideb gytbwys. Rhaid i unrhyw arfer disgrisiwn gael ei gynnwys o fewn y cyllidebau gwasanaeth presennol, felly dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gweithredir disgrisiwnau.
- 2.3 Mae yna lawer o ddisgrisiwnau cyflogwr yn rheoliadau cyfredol y Cynllun ac mae sawl un arall yn dal i fodoli o Gynlluniau blaenorol; fodd bynnag dim ond nifer cymharol fach o ddisgrisiwnau cyflogwr y mae'n rhaid eu cyhoeddi.
- 2.4 Polisi Disgrisiwnau Cyflogwr LGPS felly yw datganiad polisi ysgrifenedig y Cyngor sy'n manylu ar holl ddisgrisiwnau gorfodol y cyflogwr, ynghyd â nifer o ddisgrisiwnau cyflogwr nad ydynt yn orfodol y mae'r LGPS yn argymhell bod cyflogwyr yn eu cyhoeddi hefyd.

3.0 Disgrisiwnau - gorfodol a nad ydynt yn orfodol

3.1 Mae 5 disgrisiwn gorfodol ac 8 disgrisiwn nad ydynt yn orfodol.

3.2 Y disgrisiwnau gorfodol yw:

- A ddylid rhoi pensiwn blynyddol ychwanegol
- A ddylid rhannu cost prynu pensiwn blynyddol ychwanegol (SCAPC)
- A ddylid caniatáu ymddeoliad hyblyg?
- A ddylid troi'r rheol 85 mlynedd ymlaen (ac eithrio ymddeoliad hyblyg) wrth dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn wirfoddol
- A ddylid hepgor, wrth dalu buddion yn gynnar yn wirfoddol, unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar grwpiau tosturiol neu fel arall (ac eithrio ymddeoliad hyblyg)

3.2 Y disgrisiwnau heb fod yn orfodol yw:

- A ddylid cyfrannu at drefniant Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (SCAVC) rhannu costau, faint y dylid cyfrannu, ac ym mha amgylchiadau?
- A ddylid estyn y terfyn amser i aelod ddewis neu brynu pensiwn ychwanegol trwy gyfraniad pensiwn ychwanegol cost a rennir (SCAPC) ar ôl dychwelyd o gyfnod o absenoldeb?
- A ddylid estyn y terfyn amser o 12 mis i aelod ddewis trosglwyddo hawliau pensiwn o gynllun pensiwn cofrestredig arall i'r Cynllun?
- A ddylid estyn y terfyn amser o 12 mis i aelod ddewis peidio ag agregu buddion gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu gyfuniadau o cyn Ebrill 2014 ac ar ôl Mawrth 2014)
- A ddylid estyn y terfyn amser o 12 mis i aelod ddewis cyfuno buddion gohiriedig cyn Ebrill 2014
- Sut y bydd band cyfraniadau cyflogwr yn cael ei bennu i ddechrau a'i adolygu wedi hynny?
- A ddylid cynnwys cyfandaliad rheolaidd wrth gyfrifo tâl pensiynadwy tybiedig (APP)?

- A ddylid, yn amodol ar gymhwyster, amnewid lefel uwch o dâl pensiynadwy wrth gyfrifo tâl pensiynadwy tybiedig (APP)?
- 3.4 Bydd unrhyw newid i'r disgresiynau a arferir o dan Reoliadau LGPS yn dod i rym ar unwaith o'r dyddiad y cytunir ar y newidiadau i'r polisiau. Bydd y polisi y yn parhau i gael ei adolygu, a bydd yr holl ddiweddariadau yn cael eu hychwanegu a'u cyhoeddi ar y cyfle cynharaf, yn amodol ar ystyried y rheoliadau a amlinellir yn 3.5.
 - 3.5 Ni all unrhyw newid i'r disgresiynau a arferir o dan y Rheoliadau lawndal Disgresiynol 2000, Rheoliadau lawndal Disgresiynol 2006 neu Reoliadau Lwfansau Anafiadau 2011 ddod i rym tan *fis ar ôl y dyddiad y cyhoeddir y datganiad polisi diwygiedig*.
 - 3.6 Anfonir copi o unrhyw bolisi diwygiedig i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe cyn pen mis ar ôl ei adolygu.
 - 3.7 Yr eitemau canlynol a amlygwyd mewn llwyd yw diweddariadau 2020 i'r uchod, ac maent yn amlinellu polisi'r Cyngor ar gyfer pob un. Yr eitemau nad ydyn nhw'n llwyd yw'r disgresiynau presennol lle na wnaed unrhyw newidiadau.

4.0 Disgresiynau Gorfodol Perthnasol

4.1 Disgresiynau gorfodol perthnasol blaenorol

RHESTR O DDISGRESIYNAU PENSIWN: Diweddariad 2018 ar gyfer gwirio yn erbyn y wybodaeth uchod

CRYNODEB O'R DISGRESIYNAU ALLWEDDOL I'W GWEITHREDU AR AC AR ÔL1 EBRILL 2014 (AR 14 MAI 2018) MEWN PERTHYNAS AG AELODAU GWEITHREDOL (AC EITHRIO AELODAU SY'N GYNGHORWYR) AC AELODAU (AC EITHRIO AELODAU SY'N GYNGHORWYR), SY'N ATAL AELODAETH WEITHREDOL AR ÔL 31 MAWRTH 2014, SY'N DDISGRESIYNAU O DAN:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008 [OS 2008/239] [rhagddodiad A]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'i diwygiwyd) [OS 2007/1166] [rhagddodiad B]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008 [OS 2008/238] [rhagddodiad T]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 [OS 2014/525] [rhagddodiad TP]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 [OS 2013/2356] [rhagddodiad R]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 [OS 1997/1612] (fel y'i diwygiwyd)[rhagddodiad L]

CRYNODEB O'R DISGRESIYNAU ALLWEDDOL I'W GWEITHREDU AR AC AR ÔL 1 EBRILL 2014. (AR 14 MAI 2018) MEWN PERTHYNAS AG AELODAU GWEITHREDOL (AC EITHRIO AELODAU SY'N GYNGHORWYR) AC AELODAU (AC EITHRIO AELODAU SY'N GYNGHORWYR), SY'N ATAL AELODAETH WEITHREDOL RHWNG 1 EBRILL 2008 A 31 MAWRTH 2014:

Gorfodol

A ddylid troi'r rheol 85 mlynedd ymlaen wrth dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn wirfoddol

A ddylid troi'r rheol 85 mlynedd ymlaen wrth dalu pensiwn afiechyd haen 3 gohiriedig yn gynnar yn wirfoddol

A ddylid hepgor, wrth dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn wirfoddol, unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar sail tosturiol

A ddylid hepgor, wrth dalu pensiwn afiechyd haen 3 gohiriedig yn gynnar yn wirfoddol, unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar sail tosturiol

CRYNODEB O'R DISGRESIYNAU I'W GWEITHREDU AR AC AR ÔL 1 EBRILL 2014. (AR 14 MAI 2018) MEWN PERTHYNAS AG AELODAU GWEITHREDOL (AC EITHRIO AELODAU SY'N GYNGHORWYR) AC AELODAU (AC EITHRIO AELODAU SY'N GYNGHORWYR), WNAETH ATAL AELODAETH WEITHREDOL CYN 1 EBRILL 1998:

Gorfodol:

A ddylid caniatáu talu buddion yn gynnar ar sail tosturiol?

CRYNODEB O'R DISGRESIYNAU I'W GWEITHREDU O DAN REOLIADAU LLYWODRAETH LEOL (TERFYNU CYFLOGAETH YN GYNNAR) (IAWNDAL DISGRESIYNOL) (CYMRU A LLOEGR) 2006:

Gorfodol:

A ddylid seilio taliadau diswyddo ar gyflog wythnos gwirioneddol lle mae hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnos statudol?

A ddylid dyfarnu iawndal cyfandaliad hyd at 104 wythnos o dâl mewn achosion o ddiswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd, neu roi'r gorau i benodiad ar y cyd?

CRYNODEB O'R DISGRESIYNAU I'W GWEITHREDU O DAN REOLIADAU LLYWODRAETH LEOL (TERFYNU CYFLOGAETH YN GYNNAR) (IAWNDAL DISGRESIYNOL) (CYMRU A LLOEGR) 2000:

Gorfodol:

I ba raddau y dylid lleihau neu atal taliad blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol unigolyn yn ystod unrhyw gyfnod o ail-gyflogi mewn llywodraeth leol ac wedi hynny?

Sut i ddosrannu taliad blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol unrhyw briod neu bartner sifil sy'n goroesi?

A ddylai taliadau blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol y priod neu bartner sifil barhau i gael eu talu ar ôl ailbriodi, cychwyn partneriaeth sifil newydd neu gyd-fyw?

A ddylai taliadau blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol y priod neu bartner sifil barhau i gael eu talu ar ôl ailbriodi, cychwyn partneriaeth sifil newydd neu gyd-fyw?

A ddylid atal talu blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol pan fydd y priod neu'r partner sifil yn ailbriodi neu'n cyd-fyw neu'n ymrwymo i bartneriaeth sifil ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998 gyda pherson arall sydd hefyd â hawl i daliad CAY blynyddol priod neu bartner sifil?

Sut i benderfynu i bwy y dylid talu (a dosrannu) taliadau blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol unrhyw blant lle nad yw pensiynau plant yn daladwy o dan y LGPS?

CRYNODEB O'R DISGRESIYNAU I'W GWEITHREDU O DAN REOLIADAU LLYWODRAETH LEOL (TERFYNU CYFLOGAETH YN GYNNAR) (TALIADAU DISGRESIYNOL) (LWFANSAU ANAFIADAU) 2011:

Gorfodol:

A ddylid talu dyfarniad anaf ac o dan ba amgylchiadau

Sut i bennu swm dyfarniad anaf ac am ba hyd y caiff ei dalu?

Mae'r canlynol yn amlinellu'r holl ddisgresiynau cyfredol a chynhwysir gofynion newydd yn adrannau llwyd pob tabl.

5.0 Disgresiynau (ar 31 Gorffennaf 2021)

5.1 Adran 1:

- Rheoliadau LGPS 2013 [OS 2013/2356] [R]
- Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014 [OS 2014/525] [TP]
- Rheoliadau LGPS (Gweinyddiaeth) 2008 [OS 2008/239] [A]
- Rheoliadau LGPS (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'i diwygiwyd) [OS 2007/1166] [B]
- Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol) 2008 [OS 2008/238] [T]
- Rheoliadau LGPS 1997 (fel y'u diwygiwyd) [OS 1997/1612] [L]

Polisiâu disgresiynol o 1 Ebrill 2014 mewn perthynas ag aelodau gweithredol (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr) ar ôl 31 Mawrth 2014 ac ymadawyr (ac eithrio aelodau cynghorwyr) ar ôl 31 Mawrth 2014:

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
R16(2)(e) & R16(4)(d)	A ddylid cyfrannu at gynllun APC rhannu costau, faint y dylid cyfrannu, ac ym mha amgylchiadau.	Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd yn ariannu SCAPCs oherwydd y costau uwch cysylltiedig

R30(6) & TP11(2)	A ellir talu'r holl fuddion neu rai ohonynt os yw cyflogai yn lleihau ei oriau neu radd (ymddeoliad hyblyg)	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
R30(8)	A ddylid hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion a delir ar ymddeoliad hyblyg.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
R30(8)	A ddylid hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion y mae aelod yn eu tynnu o'u gwirfodd cyn oedran pensiwn arferol ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 yn unig).	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
TPSch 2, para 1(2) & 1(1)(c)	A ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion o'i wirfodd ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed (ac eithrio ar sail ymddeol yn hyblyg).	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
TP3(1), TPsch 2, para 2(1), B30(5) & B30A(5)	A ddylid hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd i aelod sy'n tynnu buddion o'i wirfodd cyn oedran pensiwn arferol ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac ar ôl 31 Mawrth 2014): a) ar sail tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) a / neu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes

	<p>ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006,</p> <p>b) ar sail tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) a / neu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ni fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac ni fydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol, TP3(1), TPSch 2, para2(1), B30(5) a B30A(5) Cyflogwr (neu'r Cyngor Gweinyddol lle mae'r Cyflogwr wedi dod yn ddarfodedig)</p> <p>c) ar sail tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) a / neu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006 a bydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016,</p> <p>d) ar sail tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) a / neu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ni fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 a bydd cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.</p>	<p>cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
R31	<p>A ddylid rhoi pensiwn ychwanegol i aelod gweithredol neu cyn pen 6 mis ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol oherwydd diswyddo neu effeithlonrwydd busnes (hyd at £6,500 y flwyddyn ar 1 Ebrill 2014 - caiff y ffigur hwn ei ddiogelu yn ôl chwyddiant yn flynyddol)</p>	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
R9(1) & R9(3)	<p>Pennu cyfradd cyfraniadau cyflogeion</p>	<p>Mae pob taliad sefydlog, rheolaidd yr ystyrir eu bod yn bensiynadwy yn cael ei ystyried. Bydd ailasesiadau ac ail-fandio rheolaidd yn digwydd er mwyn ystyried, er enghraifft, dyfarniadau cyflog, cynyddrannau a dyrchafiadau.</p>

R16(16)	A ddylid estyn y dyddiad cau o 30 diwrnod i aelod ddewis APC rhannu costau ar ôl dychwelyd o gyfnod o absenoldeb o'r gwaith gyda chaniatâd heb unrhyw dâl pensiynadwy (ac eithrio oherwydd afiechyd neu anaf, absenoldeb perthnasol yn ymwneud â phlentyn neu absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn)	Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu estyniadau a lle roedd yr oedi y tu hwnt i reolaeth yr aelod
R17(1) a diffiniad o SCAVC yn RSch1	A ddylid cyfrannu at gynllun AVC rhannu costau, faint y dylid cyfrannu, ac ym mha amgylchiadau.	Nid yw'r Cyngor yn cynnig trefniadau AVC rhannu costau
TP15(2A)(b), L66(8) a L66 (9)(b) blaenorol	Caniatáu cais hwyr i drosi AVCs y cynllun yn gredyd aelodaeth h.y. caniatáu cais fwy na 30 diwrnod ar ôl i aelodaeth weithredol ddod i ben (lle'r oedd trefniant AVC cyn 13 Tachwedd 2001)	Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu estyniadau a lle roedd yr oedi y tu hwnt i reolaeth yr aelod
R19(2)	Nid oes hawl i ddychwelyd cyfraniadau pan adawodd aelod ei gyflogaeth oherwydd trosedd o fath twyllodrus neu gamymddwyn difrifol mewn cysylltiad â'r gyflogaeth honno, oni bai bod y cyflogwr yn cyfarwyddo y dylai ad-daliad llwyr neu rannol gael ei wneud.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R20(1)(b)	Nodwch yng nghontract cyflogai pa daliadau neu fuddion eraill, ac eithrio'r rhai a bennir yn R20(1)(a) ac na chânt eu hatal fel arall gan R20(2), sy'n bensiynadwy.	Mae pob taliad sefydlog, rheolaidd yr ystyrir eu bod yn bensiynadwy yn cael eu hystyried. Bydd ailasesiadau ac ail-fandio rheolaidd yn digwydd er mwyn ystyried, er enghraifft, dyfarniadau cyflog, cynyddrannau a dyrchafiadau.
R21(5)	Wrth bennu Tâl Pensiynadwy Tybiedig (APP), a yw cyfandaliad a wnaed yn ystod y 12 mis blaenorol yn "gyfandaliad rheolaidd"	Yn gyffredinol ni fydd cyfandaliad a wnaed yn y 12 mis blaenorol yn cael ei ystyried yn "gyfandaliad rheolaidd", fodd bynnag bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod
R21(5A) & R21(5B)	Lle ym marn y Cyflogwr, mae'r tâl pensiynadwy a dderbyniwyd mewn perthynas â chyflogaeth (wedi'i addasu i adlewyrchu unrhyw gyfandaliadau) yn y 3 mis (neu 12 wythnos os na thelir yn fisol) cyn cychwyn Tâl Pensiynadwy Tybiedig	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

	(APP), yn sylweddol yn is na lefel y tâl pensiynadwy y byddai'r aelod wedi'i dderbyn fel rheol, penderfynu a ddylid amnewid lefel uwch o dâl pensiynadwy ar ôl ystyried lefel y tâl pensiynadwy a dderbyniodd yr aelod yn ystod y 12 mis blaenorol.	
R22(8)(b)	A ddylid estyn y cyfnod opsiwn o 12 mis i aelod ddewis na ddylid cyfuno buddion gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014 â chyflogaeth newydd.	Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu estyniadau a lle roedd yr oedi y tu hwnt i reolaeth yr aelod
TP10(6)	A ddylid estyn y cyfnod opsiwn 12 mis i aelod (na ddaeth yn aelod o Gynllun 2014 yn rhinwedd TP5(1)) ddewis y dylid cyfuno buddion gohiriedig cyn 1 Ebrill 2014 â chyflogaeth newydd.	Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu estyniadau a lle roedd yr oedi y tu hwnt i reolaeth yr aelod
R22(7)(b)	A ddylid estyn y cyfnod opsiwn o 12 mis i aelod ddewis na ddylid cyfuno buddion gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014 â chyflogaeth gyfredol barhaus.	Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu estyniadau a lle roedd yr oedi y tu hwnt i reolaeth yr aelod
TP12(6)	A ddylid defnyddio tystysgrif a gynhyrchwyd gan IRMP o dan Gynllun 2008 at ddibenion gwneud penderfyniad afiechyd o dan Gynllun 2014	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R37(3)&(4)	Penderfynu a yw person sy'n derbyn pensiwn afiechyd Haen 3 wedi dechrau cyflogaeth fuddiol	Bydd y Cyngor yn penderfynu ar gymhwysedd yn unol â'r Rheoliadau LGPS ac yn adolygu ar ôl 18 mis
R37(3)	A ddylid adennill unrhyw bensiwn Haen 3 a ordalwyd ar ôl cychwyn cyflogaeth fuddiol	Bydd y Cyngor yn penderfynu ar gymhwysedd yn unol â'r Rheoliadau LGPS a yn adolygu ar ôl 18 misoedd (yn dibynnu ar canlyniad R37 (3)&(4) uchod).
R38(3)	Penderfynu a yw buddiolwr gohiriedig yn cwrdd â'r meini prawf o fod yn analluog yn barhaol i wneud ei swydd flaenorol oherwydd afiechyd ac yn annhebygol o allu ymgymryd â chyflogaeth fuddiol cyn	Bydd y Cyngor yn penderfynu ar gymhwysedd yn unol â'r Rheoliadau LGPS a chyngor meddygol

	oedran pensiwn arferol neu am o leiaf dair blynedd, pa un bynnag sydd gyntaf.	
R38(6)	Penderfynu a yw aelod haen 3 salwch a ataliwyd yn annhebygol o allu ymgymryd â chyflogaeth fuddiol cyn oedran pensiwn arferol oherwydd afiechyd.	Bydd y Cyngor yn penderfynu ar gymhwysedd yn unol â'r Rheoliadau LGPS a chyngor meddygol
R91(1)&(8)	A ddylid gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am dystysgrif fforffedu pan geir aelod yn euog o drosedd berthnasol (mae trosedd berthnasol yn drosedd a gyflawnwyd mewn cysylltiad â chyflogaeth y mae'r person a gafwyd yn euog yn aelod ohoni, a bod yr aelod wedi gadael y gyflogaeth oherwydd hynny).	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R91(4)	Lle rhoddir tystysgrif fforffedu, a ddylid cyfarwyddo bod buddion i'w fforffedu (ac eithrio hawliau i GMP - ond gweler R95 isod)	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R92(1)&(2)	Pan gyhoeddir tystysgrif fforffedu, a ddylid cyfeirio taliadau dros dro allan o'r Gronfa Bensiwn nes y penderfynir naill ai i gymhwyso'r dystysgrif neu i dalu buddion.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R93(2)	A ddylid adennill o'r Gronfa unrhyw rywmedigaeth ariannol neu, os yw'n llai, gwerth buddion yr aelod (ac eithrio buddion o hawliau pensiwn a drosglwyddwyd i mewn neu APCs neu AVCs neu, yn amodol ar R95 isod, mewn perthynas ag unrhyw GMP) lle talwyd y rhwymedigaeth o ganlyniad i gamymddwyn difrifol neu weithred neu esgeulustod troseddol, esgeulus neu dwyllodrus mewn cysylltiad â'r gyflogaeth ac o ganlyniad mae'r person wedi gadael cyflogaeth.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R95	A ddylai, os yw'r aelod wedi cyflawni brad neu wedi cael ei garcharu am o leiaf 10 mlynedd am un neu fwy o droseddau o dan y Deddfau Cyfrinachau Swyddogol, a ddylai fforffedu o dan R91 neu adfer rhwymedigaeth ariannol o dan R93 amddifadu'r aelod neu briod neu bartner sifil yr aelod sydd wedi goroesi o unrhyw hawl GMP.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
R98(1)(b)	Cytuno i daliad swmp-drosglwyddo.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

R100(6)	Ymestyn terfyn amser arferol ar gyfer derbyn gwerth trosglwyddo y tu hwnt i 12 mis o ymuno â'r LGPS.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
TP3(6), TP4(6)(c), TP8(4), TP10(2)(a), TP17(2)(b) & B11(2)	A ddylid caniatáu i aelod ddewis y cyfnod tâl terfynol ar gyfer ffioedd i fod yn unrhyw 3 blynedd yn olynol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth yn y 10 mlynedd cyn gadael.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
TP3(1)(a), TSch 1, L23(4)	Cyhoeddi tystysgrif amddiffyn buddion pensiwn pan fo aelod yn methu â gwneud cais am un (toriadau / cyfyngiadau cyflog yn digwydd cyn 1 Ebrill 2008)	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

5.2 Adran 2

- Rheoliadau LGPS (Gweinyddiaeth) 2008 [OS 2008/239] [A]
- Rheoliadau LGPS (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'i diwygiwyd) [OS 2007/1166] [rhagddodiad B]
- Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol) 2008 [OS 2008/238] [T]
- Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014 [OS 2014/525] [TP]
- Rheoliadau LGPS 2013 [OS 2013/2356] [R]
- LGPS 1997 (fel y'i diwygiwyd) [1997/1612] [L]

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr) a beidiodd ag aelodaeth weithredol ar 1 Ebrill 2008 neu ar ôl hynny a chyn 1 Ebrill 2014

Polisiâu disgresiynol o 1 Ebrill 2014 mewn perthynas ag aelodau gweithredol (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr) ar ôl 31 Mawrth 2014 ac ymadawyr (ac eithrio aelodau cynghorwyr) ar ôl 31 Mawrth 2014:

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
TPSch 2, para 1(2) & 1(1)(c)	A ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion o'i wirfodd ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed (ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg).	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad
B30(5), TPSch 2, para 2(1)	A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n berthnasol i fuddion gohiriedig a delir yn gynnwys o dan B30 (aelod).	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno

TPSch 2, para 1(2) & 1(1)(c)	A ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n bensiynwr â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion o'i wirfodd ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed (ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg).	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
B30A(5), TPSch 2, para 2(1)	A ddylid hepgor, ar sail tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n berthnasol i fuddion a delir yn gynnar o dan B30A (aelod sy'n bensiynwr â buddion gohiriedig).	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
TSch1, L66(8) & L66(9)(b) blaenorol	Caniatáu cais hwyr i drosi AVCs y cynllun yn gredyd aelodaeth h.y. caniatáu cais fwy na 30 diwrnod ar ôl i aelodaeth weithredol ddod i ben.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A47(2)	Nid oes hawl i ddychwelyd cyfraniadau pan adawodd aelod ei gyflogaeth oherwydd trosedd o fath twyllodrus neu gamymddwyn difrifol mewn cysylltiad â'r gyflogaeth honno, oni bai bod y cyflogwr yn cyfarwyddo y dylai ad-daliad llwyr neu rannol gael ei wneud.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A49(1) & (2)	Gellir adennill Premiwm Cyfwerth â Chyfraniad (CEP) sy'n fwy na'r Swm Ardystiedig (CA) a adenillwyd o ad-daliad cyfraniadau o'r Gronfa Bensiwn. O dan reoliad 52(1) a ddirymwyd o Reoliadau OPS (Contractio-allan) 1996 [OS 1996/1172] a rheoliad 12 o Reoliadau OPS (Cynlluniau a Gontractiwyd allan) (Rhif 2) rhaid bod CEP wedi'i dalu i'r comisiynydd cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad terfynu cyflogaeth wedi'i chontractio allan, neu fis ar ôl i'r Comisiynydd hysbysu'r Cyngor sy'n gweinyddu bod CEP yn daladwy. Yn dilyn diwedd yr ymarfer cysoni wedi'i gontractio allan, dylai'r polisi disgrisiynol hwn fod wedi dod i ben yn gyfan gwbl gan y bydd yr holl breimymau wedi'u talu ac ni fydd y comisiynwyr yn rhoi unrhyw hysbysiadau pellach	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A72(1)&(6)	A ddylid gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am dystysgrif fforffedu pan geir	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r

	aelod yn euog o drosedd berthnasol (mae trosedd berthnasol yn drosedd a gyflawnwyd mewn cysylltiad â chyflogaeth y mae'r person a gafwyd yn euog yn aelod ohoni, a bod yr aelod wedi gadael y gyflogaeth oherwydd hynny)	disgresiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A72(3)	Lle rhoddir tystysgrif fforffedu, a ddylid cyfarwyddo bod buddion i'w fforffedu	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgresiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A73(1) & (2)	Pan gyhoeddir tystysgrif fforffedu, a ddylid cyfeirio taliadau dros dro allan o'r Gronfa Bensiwn nes y penderfynir naill ai i gymhwyso'r dystysgrif neu i dalu buddion.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgresiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A74(2)	A ddylid adennill o'r Gronfa unrhyw rwymedigaeth ariannol neu, os yw'n llai, gwerth buddion yr aelod (ac eithrio buddion o hawliau pensiwn a drosglwyddwyd i mewn neu AVCs/SCAVCs) lle talwyd y rhwymedigaeth o ganlyniad i weithred neu esgeulustod troseddol, esgeulus neu dwyllodrus mewn cysylltiad â'r gyflogaeth ac o ganlyniad mae'r person wedi gadael cyflogaeth.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgresiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
A76(2) & (3)	A ddylid adennill o'r Gronfa unrhyw golled ariannol a achosir gan drosedd dwyllodrus neu gamymddwyn difrifol cyflogai (sydd wedi gadael cyflogaeth oherwydd y drosedd dwyllodrus neu'r camymddwyn difrifol hwnnw), neu swm yr ad-daliad os yw'n llai.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgresiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
B31(4)	Penderfynu a yw buddiolwr gohiriedig yn cwrdd â meini prawf afiechyd parhaol a llai o debygolrwydd o gyflogaeth fuddiol.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
B31(7)	Penderfynu a yw aelod haen 3 afiechyd a ataliwyd yn annhebygol o allu ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth fuddiol.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

5.3 Adran 3

- Rheoliadau LGPS 1997 [OS 1997/1612]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008 [OS 2008/238] [rhagddodiad T]

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008 [OS 2008/239] [rhagddodiad A]
- Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014 [OS 2014/525] [TP]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 [OS 2013/2356] [rhagddodiad R]

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas â:

Aelodau gweithredol sy'n gynghorwyr yng Nghymru, ac aelodau sy'n gynghorwyr a beidiodd ag aelodaeth weithredol ar 1 Ebrill 1998 neu ar ôl hynny, ac unrhyw aelodau eraill o'r cynllun a beidiodd ag aelodaeth weithredol ar 1 Ebrill 1998 neu ar ôl hynny a chyn 1 Ebrill 2008:

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
R31(2)	Cais am grant i dalu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed a chyn 55 oed.	Yn gyffredinol, bydd y Cyngor yn arfer ei ddisgresiwn i beidio â chaniatáu dyfarniadau o'r fath ym mhob amgylchiad ond am rai eithriadol iawn. Byddai achosion o'r fath yn amodol ar gyflwyno achos busnes cadarn, gan nodi gwir gostau dyfarniad o'r fath
TPSch 2, para 1(2) & 1(1)(f) & R60	A ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion o'i wirfodd ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed. Noder: Nid yw TPsSch 2, para 2(2) yn cyfeirio at baragraff 1(1)(f) felly mewn gwirionedd nid oes unrhyw ofyniad i gyhoeddi polisi o dan y rheoliad hwn neu R60. Fodd bynnag, rydym yn deall mai hepgoriad rheoliadol yn unig yw hwn a dylai'r parti priodol gyhoeddi polisi yn unol â hynny.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
31(5) & TPsSch 2, para 2(1)	Hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n berthnasol i fuddion gohiriedig a delir yn gynnar.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn

		ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
34(1)(b)	Penderfynu, yn absenoldeb dewis gan yr aelod cyn pen 3 mis ar ôl gallu dewis, pa fudd sydd i'w dalu lle byddai gan yr aelod hawl i gael pensiwn neu grant ymddeol o dan 2 reoliad neu fwy mewn perthynas â'r un cyfnod o Aelodaeth y cynllun.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
71(7)(a)	Cydsyniad i gyn-gyflogwr aelod aseinio hawliau i'r cyflogwr newydd o dan unrhyw bolisi yswiriant bywyd SCAVC.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
88(2)	Nid oes hawl i ddychwelyd cyfraniadau pan adawodd aelod ei gyflogaeth oherwydd trosedd o fath twyllodrus neu gamymddwyn difrifol mewn cysylltiad â'r gyflogaeth honno, oni bai bod y cyflogwr yn cyfarwyddo y dylai ad-daliad llwyr neu rannol gael ei wneud.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
89(1)&(2)	Gall cyflogwr ddirymnu cyfraniadau o gyflog cynghorydd neu gyflog lluoedd wrth gefn.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
92	Gellir adennill Premiwm Cyfwerth â Chyfraniad (CEP) sy'n fwy na'r Swm Ardystiedig (CA) a adenillwyd o ad-daliad cyfraniadau o'r Gronfa Bensiwn. O dan reoliad 52(1) a ddirymwyd o Reoliadau OPS (Contractio-allan) 1996 [OS 1996/1172] a rheoliad 12 o Reoliadau OPS (Cynlluniau a Gontractiwyd allan) (Rhif 2) rhaid bod CEP wedi'i dalu i'r comisiynydd cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad terfynu cyflogaeth wedi'i chontractio allan, neu fis ar ôl i'r Comisiynydd hysbysu'r Cyngor sy'n gweinyddu bod CEP yn daladwy. Yn dilyn diwedd yr ymarfer cysoni wedi'i gontractio allan, dylai'r polisi disgresiynol hwn fod wedi dod i ben yn gyfan gwbl gan y bydd yr holl breimymau wedi'u talu ac ni fydd y comisiynwyr yn rhoi unrhyw hysbysiadau pellach.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

111(2)&(5)	Fforffedu hawliau pensiwn wrth gyhoeddi tystysgrif yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn trosedd berthnasol (mae trosedd berthnasol yn drosedd a gyflawnwyd mewn cysylltiad â chyflogaeth y mae'r person a gafwyd yn euog yn aelod ohoni, a bod yr aelod wedi gadael y gyflogaeth oherwydd hynny)	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
112(1)	Pan gyhoeddir tystysgrif fforffedu, taliadau dros dro allan o'r Gronfa Bensiwn nes y penderfynir naill ai i gymhwyso'r dystysgrif neu i dalu buddion.	Bydd y Cyngor fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn, ond mae'n cadw'r hawl i ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
113(2)	Adennill rhwymedigaeth ariannol o'r Gronfa sy'n ddyledus gan gyn-gyflogai neu, os yw'n llai, gwerth buddion yr aelod (heblaw hawliau pensiwn a drosglwyddwyd i mewn).	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
115(2)&(3)	Adennill o'r Gronfa golled ariannol a achoswyd gan gyflogai, neu swm yr addaliad os yw'n llai.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

5.4 Adran 4

- Rheoliad LGPS 1995 [OS 1995/1019]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 1997 [OS 1997/1613] [rhagddodiad TL]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 [OS 1997/1612] (fel y'i diwygiwyd) [rhagddodiad L]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008 [OS 2008/239] [rhagddodiad A]
- Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014 [OS 2014/525] [TP]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 [OS 2013/2356] [rhagddodiad R]
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995 [rhagddodiad D]

Polisiau disgrisiynol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun y daeth eu haelodaeth weithredol i ben cyn 1 Ebrill 2008:

Rheoliad	Pŵer Disgrisiynol	Polisi Cyngor Abertawe
TP3(5A)(vi), TL4, L106(1) & D11(2)(c)	Cais am grant i dalu buddion gohiriedig yn gynnar ar neu ar ôl 50 oed am resymau tosturiol. Er nad yw darpariaethau cyffredin rheoliadau darpariaethau trosiannol 1997	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad

	yn nodi rheoliad D11 (2) (c), y bwriad oedd y dylai fod yn berthnasol i'r rheoliad hwn.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
D10	Penderfynu, yn absenoldeb dewis gan yr aelod cyn pen 3 mis ar ôl gallu dewis, pa fudd sydd i'w dalu lle byddai gan yr aelod hawl i gael pensiwn neu grant ymddeol o dan 2 reoliad neu fwy mewn perthynas â'r un cyfnod o Aelodaeth y cynllun.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

5.5 Adran 5

• Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Disgresiynol) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'i diwygiwyd) [OS 2006/2914]

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas â chyflogeion Cyngor sy'n cyflogi a ddiffiniwyd o dan reoliad 2 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Disgresiynol) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'i diwygiwyd):

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
5	I seilio taliadau diswyddo ar gyflog wythnos gwirioneddol lle mae hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnos statudol.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn talu yn ôl y cyflog gwirioneddol.
6	I ddyfarnu iawndal cyfandaliad hyd at 104 wythnos o dâl mewn achosion o ddiswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd, neu roi'r gorau i benodiad ar y cyd.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn defnyddio'r taliad diswyddo statudol yn ôl y cyfrifwr reoleiddio.

5.6 Adran 6

• Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Disgresiynol) (Cymru a Lloegr) 2000 (fel y'i diwygiwyd) [OS 2000/1410]

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas â chyn-gyflogeion Cyngor sy'n cyflogi sy'n gorff sy'n gorff rhestredig, yn gorff dynodedig, neu'n gorff yr ystyrir ei fod yn gorff rhestredig o dan Reoliadau LGPS 2013 a rheoliadau rhagflaenol cyfatebol (ac eithrio cyrff a dderbyniwyd):

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
21 (4)	Sut i ddsrannu taliad blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol unrhyw briod neu bartner sifil sy'n goroesi lle mae'r person ymadawedig yn gadael mwy nag un priod neu bartner sifil.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
25 (2)	Sut y bydd yn penderfynu i bwy y dylid talu taliadau blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol unrhyw blant lle nad yw pensiynau plant yn daladwy o dan y LGPS (oherwydd nad oedd y cyflogai wedi ymuno â'r LGPS) ac, mewn achos o'r fath, sut fydd y blynyddoedd ychwanegol blynyddol yn cael eu dosrannu ymhlith y plant cymwys.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
21 (7)	A ddylid, mewn perthynas â phriod person a roddodd y gorau i gyflogaeth cyn 1 Ebrill 1998 a lle mae'r priod neu'r partner sifil yn ailbriodi, yn ymrwymo i bartneriaeth sifil newydd neu'n cyd-fyw ar ôl 1 Ebrill 1998, peidio â chymhwyso'r rheolau atal pensiwn arferol h.y. a ddylid parhau i dalu taliadau blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol y priod neu'r partner sifil.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
21 (5)	Os, o dan y penderfyniad blaenorol, polisi'r Cyngor yw defnyddio'r rheolau atal arferol, a ddylid adfer taliad blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol y priod	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p>

	neu'r partner sifil ar ôl diwedd yr ailbriodas, partneriaeth sifil newydd neu gyd-fyw.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
21(7)	A ddylid, mewn perthynas â phriod neu bartner sifil unigolyn a roddodd y gorau i gyflogaeth cyn 1 Ebrill 1998 a lle mae'r priod neu'r partner sifil yn ailbriodi neu'n cyd-fyw neu'n ymrwymo i bartneriaeth sifil ar 1 Ebrill 1998 neu ar ôl hynny gyda pherson arall sydd hefyd â hawl i daliad CAY blynyddol priod neu bartner sifil, dad-gymhwyso'r rheol arferol sy'n ei gwneud yn ofynnol i un ohonynt ildio taliad tra bo cyfnod y briodas, y bartneriaeth sifil neu'r cyd-fyw yn para, h.y. a ddylai taliadau CAY blynyddol y priod neu'r partneriaid sifil barhau i gael eu talu i'r ddau ohonynt.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
17	I ba raddau y dylid lleihau neu atal taliad blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol unigolyn yn ystod unrhyw gyfnod o ail-gyflogaeth mewn llywodraeth leol.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Yn gyffredinol, bydd y Cyngor yn atal taliad ond bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
19	Sut i leihau taliad blynyddoedd ychwanegol iawndal blynyddol yr aelod yn dilyn diwedd cyfnod o ail-gyflogaeth mewn llywodraeth leol.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno

5.7 Adran 7

• Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiynol) (Lwfansau Anafiadau 2011 [OS 2011/2954])

Polisiâu disgresiynol y gallai pob Cyngor sy'n cyflogi gymhwyso wrth arfer ei bwerau disgresiynol i wneud unrhyw ddyfarniad mewn perthynas ag ymadawyr, marwolaethau a gostyngiadau mewn cyflog a ddigwyddodd ar ôl 15 Ionawr 2012:

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
3 (1)	A ddylid rhoi lwfans anaf yn dilyn gostyngiad mewn cydnabyddiaeth o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
3 (4) ac 8	Polisi ysgrifenedig gorfodol Swm y lwfans anaf yn dilyn gostyngiad mewn cydnabyddiaeth o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
3 (2)	Penderfynu a yw person yn parhau i fod â hawl i lwfans anaf a ddyfarnwyd o dan reoliad 3(1) (gostyngiad mewn cydnabyddiaeth o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd).	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>

4 (1)	A ddylid rhoi lwfans anaf yn dilyn diwedd cyflogaeth o ganlyniad i analluogrwydd parhaol o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
4 (3) ac 8	Swm y lwfans anaf ar ôl i gyflogaeth ddod i ben o ganlyniad i analluogrwydd parhaol o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
4 (2)	Penderfynu a yw person yn parhau i fod â hawl i lwfans anaf a ddyfarnwyd o dan reoliad 4(1) (colli cyflogaeth oherwydd analluogrwydd parhaol).	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno</p>
4 (5)	A ddylid atal neu derfynu lwfans anaf a ddyfarnwyd o dan reoliad 4(1) (colli cyflogaeth trwy analluogrwydd parhaol) os yw'r person yn sicrhau cyflogaeth â thâl am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.	<p>Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n</p>

		cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
6 (1)	A ddylid rhoi lwfans anaf ar ôl i gyflogaeth ddod i ben â hawl i bensiwn LGPS ar unwaith lle roedd taliad rheoliad 3 (gostyngiad mewn cydnabyddiaeth o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd) yn cael ei wneud ar ddyddiad rhoi'r gorau i gyflogaeth ond nid yw rheoliad 4 (colli cyflogaeth oherwydd analluogrwydd parhaol) yn berthnasol.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
6 (1)	Penderfynu ar swm unrhyw lwfans anaf sydd i'w dalu o dan reoliad 6(1) (talw lwfans anaf ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben).	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
6 (2)	Penderfynu a ddylid dod â thaliadau lwfans anaf sydd i'w thalu o dan reoliad 6(1) (talw lwfans anaf ar ôl i'r gyflogaeth ddod i ben) i ben a phryd.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
7 (1)	A ddylid rhoi lwfans anaf i briod, partner sifil, partner sy'n cyd-fyw (mae'r gofyniad i enwebu partner sy'n cyd-fyw wedi dod i ben yn llwyr o dan y rheoliadau hyn oherwydd canlyniad dyfarniad Elmes v Essex uchel lys) neu ddibynnydd cyflogai sydd yn marw o ganlyniad i gael anaf neu ddal afiechyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n

		cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
7 (2) ac 8	Penderfynu ar swm unrhyw lwfans anaf sydd i'w dalu i briod, partner sifil, partner sy'n cyd-fyw enwebedig (ar gyfer dyfarniadau a wnaed ar 1 Ebrill 2008 neu ar ôl hynny, mae'r gofyniad i enwebu partner sy'n cyd-fyw wedi dod i ben oherwydd canlyniad dyfarniad Elmes v Essex yr uchel lys) neu ddibynnydd cyflogai o dan reoliad 7(1) (cyflogai sydd yn marw o ganlyniad i gael anaf neu ddal afiechyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd).	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno
7 (3)	Penderfynu a ddylid atal taliadau lwfans anaf sy'n daladwy o dan reoliad 7(1) cyflogai sydd yn marw o ganlyniad i gael anaf neu ddal afiechyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd) a phryd.	Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi yn y Polisi Ymddeoliad Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun a dim ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost y gallai gytuno

5.8 Adran 8

Rheoliadau Taliadau Disgresiynol Llywodraeth Leol 1996 (fel y'i diwygiwyd) [OS 1996/1680]

Mae polisiâu disgresiynol sy'n ymwneud â lwfansau anafiadau yn gymwys dim ond mewn perthynas ag ymadawyr, marwolaethau, a gostyngiadau mewn cyflog a ddigwyddodd cyn 16 Ionawr 2012; ac sy'n ymwneud â rhoddion, yn gymwys dim ond mewn perthynas ag ymadawyr a marwolaethau a ddigwyddodd cyn 16 Ionawr 2012:

Rheoliad	Pŵer Disgresiynol	Polisi Cyngor Abertawe
34(4)	Atal neu roi'r gorau i lwfans anaf os bydd yr unigolyn yn gallu gweithio eto.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
35(3) &38	Swm y lwfans anaf yn dilyn gostyngiad mewn tâl o ganlyniad i gael anaf neu ddal clefyd o ganlyniad i unrhyw orchwyl	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

	gofynnol wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	
36	Swm a hyd y lwfans anaf ar ôl i gyflogaeth ddod i ben lle roedd taliad rheoliad 35 (lwfans anaf yn dilyn gostyngiad mewn tâl ar ôl cael anaf neu ddal clefyd o ganlyniad i unrhyw orchwyl gofynnol wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd) ond nid yw rheoliad 34 (lwfans anaf yn dilyn colli cyflogaeth oherwydd analluogrwydd parhaol ar ôl cael anaf neu ddal clefyd o ganlyniad i orchwyl gofynnol wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd) yn berthnasol.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
37(3),37(6) & 38	Swm a hyd lwfans anaf dibynnydd, priod neu bartner sifil yn dilyn marwolaeth cyflogai ar ôl cael anaf neu ddal clefyd o ganlyniad i unrhyw orchwyl gofynnol wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
37(4)	Ailosod lwfans anaf priod neu bartner sifil yn dilyn rhoi'r gorau iddi yn gynharach oherwydd cyd-fyw, ailbriodi neu gofrestru partneriaeth sifil newydd.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
41(4)	Swm y rhodd sy'n daladwy i ddibynnydd, priod neu bartner sifil sy'n goroesi lle mae swm y taliadau blwydd-dal yn is na'u gwerth cyfalaf ar ddyddiad y dyfarniad. 41(4)	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
42(4)	Swm y rhodd sy'n daladwy i ddibynnydd, priod neu bartner sifil sy'n goroesi lle mae swm y taliadau blwydd-dal diswyddo yn is na'u gwerth cyfalaf ar ddyddiad y dyfarniad.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
42(7)	Swm y rhodd sy'n daladwy i unrhyw ddibynnydd, priod neu bartner sifil arall sy'n goroesi lle mae swm y taliadau blwydd-dal a delir o dan 42(4) yn is na'u gwerth cyfalaf ar ddyddiad y dyfarniad. 42(7)	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.
46A	Llunio a pharhau i adolygu'r polisïau lwfans anafiadau a rhoddion sydd i'w gweithredu gan y Cyngor.	Bydd y Cyngor yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun.

Rhif y Fersiwn	Manylion y Newid	Dyddiad
1.0	Adolygiad a diweddariad llawn o'r Polisi, gan gynnwys ychwanegu'r holl ddisgresiynau gorfodol a'r rhai nad ydynt yn orfodol blaenorol.	Gorffennaf 2021
ADOLYGIAD CYNHARAF: Rhaid i'r polisi hwn barhau i gael ei adolygu'n gyson oherwydd newidiadau mynych i ganllawiau technegol.		Rhagfyr 2021